**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorwyr Meirick Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Arwel Roberts, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill Emrys Wynne a Mark Young gysylltiad personol ag eitem 6 - Darpariaeth Band B- Rhaglen Ysgolion yr 21ain ganrif. |
| **3** | MATERION BRYS | Dim. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | CYNNIG I SEFYDLU GRŴP CYNLLUNIO STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo sefydlu'r grŵp, y cylch gorchwyl ac aelodaeth y Grŵp Cynllunio Strategol fel y nodir yn Atodiad 1, yn amodol ar gynnwys y canlynol yn y cylch gorchwyl (1) cyfeiriad cliriach at y ffaith na fydd cyfarfodydd y grŵp yn agored i bob aelod etholedig eu mynychu, a (2) eglurhad pellach ynghylch y broses ar gyfer paratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol.* |
| **6** | DARPARIAETH BAND B - RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) cadarnhau ei ymrwymiad i ddarparu cynigion Band B yn unol â'r Rhaglen Amlinellol Strategol, fel y'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, er mwyn cwrdd â'r flaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022;*<br><br>*(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.* |
| **7** | GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2018/19 | ***PENDERFYNWYD –***<br><br>*(a) mabwysiadu Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018/19 (Atodiad 1 i'r adroddiad) a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Chynllun Busnes y Stoc Dai (Atodiad 2 i'r adroddiad);*<br><br>*(b) cynyddu rhenti anheddau'r Cyngor yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd fis Ebrill 2015 i rent wythnosol cyfartalog o £87.63 o ddydd Llun 2 Ebrill 2018 ymlaen.* |
| **8** | ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y prosiectau a nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, sydd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2018/19, yn cael eu cefnogi, ynghyd ag eitem o Atodiad 2 sy'n ymwneud â chyfyngiad cyflymder o 40mya ar Fwlch yr Oernant os yw'r cais am grant yn aflwyddiannus, a'u hargymell i'r Cyngor llawn.* |
| **9** | CYLLIDEB 2018/19 – CYNIGION TERFYNOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi effaith Setliad Llywodraeth Leol 2018/19;*<br><br>*(b) cefnogi'r cynigion a amlinellir yn Atodiad 1, sy'n cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a gyflwynwyd i aelodau yn ystod y sesiynau briffio a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017, a chan hynny'n eu hargymell i'r Cyngor llawn er mwyn pennu cyllideb derfynol 2018/19;*<br><br>*(c) argymell i'r Cyngor mai'r cynnydd cyfartalog sydd ei angen i Dreth y Cyngor er mwyn cefnogi'r gyllideb yw 4.75%, sy'n cydnabod y pwysau ariannol cynyddol ar wasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion drwy ddarparu cyllid ychwanegol o £1.5 miliwn.* |
| **10** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol a chytunwyd arni.* |
| **11** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2018**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **12** | CYN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH – GWEITHDREFN GORCHYMYN PRYNU GORFODOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cefnogi'r broses a nodir yn yr adroddiad ar gyfer penderfynu ar y dewis datblygu a'r datblygwr a ffefrir ar gyfer y safle ar ôl i broses y Gorchymyn Prynu Gorfodol ddod i ben.* |